# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD DYDD GWENER, 22 GORFFENNAF 2022

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Jason McLellan (Cyngor Dir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Mon), Charlie McCoubury (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mark Prichard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd)

Aelod Eryri: Y Cynghorydd Annwen Hughes (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

Prif Swyddogion – Emyr Williams (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Mon), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), , Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) a Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol –Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dafydd L. Edwards (Swyddog Arweiniol Prosiect y Cyd-Bwyllgor, a cynrychiolydd y Swyddog Cyllid Statudol), ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar yr 17 Mehefin 2022 fel rhai cywir.

## 5. STRWYTHUR Y SEFYDLIAD A STAFFIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd Gibbard (Prif weithredwr y CBC) a Dafydd L Edwards (Swyddog Arweiniol Prosiect y Cyd-Bwyllgor).

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i gyflwyno cais i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ryddhau rhan o amser eu Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y Cyd Bwyllgor

Corfforedig hyd 31 Mawrth 2023.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad i gyflwyno cais i'r Bwrdd Uchelgais i ryddhau rhan o amser eu Cyfarwyddwr Corfforaethol i gyflawni'r rôl o Brif Weithredwr y Cyd Bwyllgor. Mynegwyd fod tri opsiwn wedi ei ystyried sef creu swydd annibynnol ond eglurwyd nad oedd yr opsiwn hwn yn un synhwyrol. Cynigwyd i benodi un o Prif Weithredwr awdurdod lleol yn ffurfiol fel Prif Weithredwr y CBC, eglurwyd fod hyn yn profi yn anodd i roi yr amser sydd ei angen i wneud y gwaith.

Nodwyd mai opsiwn o gyflwyno cais i'r Bwrdd Uchelgais sydd yn cael ei ffafrio gan Brif Weithredwyr y Gogledd, gan y bydd yn debygol y bydd y Bwrdd Uchelgais yn cael ei ymgorffori'n rhan o'r CBC yn fuan. Mynegwyd yn ogystal i aros am y tro a gohirio sefydlu unrhyw swyddi Cynllunio a Thrafnidiaeth ranbarthol er mwyn rhoi cyfle i Brif Weithredwr dros dro newydd i CBC i ddylanwadu ar y ffordd ymlaen.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad a nodwyd cefnogaeth i'r adroddiad.
- Nodwyd yr angen i roi cyfnod o amser ar gyfer y swydd dros dro a cytunwyd i ychwanegu hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**6. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG AR GYFER 2022/23**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth)

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd ar y dyddiadau isod ar gyfer cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer 2022/23

- 16 Medi (pm)
- 18 Tachwedd (pm)
- 13 Ionawr (am)
- 31 Mawrth (am)

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y dyddiadau uchod yn cael ei cyflwyno, gan egluro y bydd posibilrwydd o gyfarfodydd ychwanegol os bydd angen yn codi.

**7. MABWYSIADU SAFONAU'R GYMRAEG**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd Gibbard (Prif weithredwr y CBC).

**PENDERFYNIAD**

- Cytunwyd i'r Cydbwyllgor fabwysiadu Egwyddorion Iaith dros dro nes y bydd safonau pwrpasol yn cael eu gosod ar y Cydbwyllgor Corfforedig gan Gomisiynydd y Gymraeg
- Comisiynwyd cefnogaeth asesu effaith ieithyddol a'r gwasanaethau cyfieithu (cyfarfodydd ac ysgrifenedig) yn ôl yr angen gan Cyngor Gwynedd,

fel yr awdurdod sy'n bresennol cefnogi gwaith y Cyd Bwyllgor Corfforedig

- Comisiynwyd yr adnodd ar gyfer proses gosod Safonau gyda'r Comisiynydd, ynghyd â monitro gweithrediad y Safonau a llunio unrhyw adroddiadau cynnydd yn ôl yr angen gan Cyngor Gwynedd, fel yr awdurdod sy'n bresennol cefnogi gwaith y Cyd Bwyllgor Corfforedig.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi cywiriad i'r adroddiad gan amlygu nad mabwysiadu safonau iaith mae'r adroddiad hwn ond egwyddorion iaith. Eglurwyd fod yr adroddiad yn gofyn am gefnogaeth y Cydbwyllgor i barhau gyda'r gefnogaeth mae Cyngor Gwynedd yn ei gynnig ar hyn o bryd o ran gwasanaeth cyfieithu ac ar gyfer asesu effaith ieithyddol ynghyd a dechrau'r sgwrs gyda'r Comisiynydd o ran gosod Safonau iaith.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Cefnogwyd y newid i'r geiriad a dangoswyd cefnogaeth i'r adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 10:10am

**CADEIRYDD**